

Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2014 - 2015

Y Cynghorydd Brian Mansbridge

Cafodd y Cynghorydd Brian Mansbridge ei ethol i Swyddfa Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 14 Mai 2014. Mae wedi cynrychioli Ward Etholiadol Ynysowen ers 2008. Mae Brian yn byw yn Edwardsville, gyda'i wraig, Brenda.

Fel Dinesydd Cyntaf Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae cyfrifoldebau'r Cynghorydd Mansbridge yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor ar achlysuron ffurfiol, seremonïol yn y Fwrdeistref Sirol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'n croesawu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol ac yn mynychu ac yn cefnogi digwyddiadau a drefnwyd gan bobl leol a sefydliadau.

Yn ystod ei flwyddyn yn y swydd, bydd y Maer yn brysur yn codi arian ar gyfer ei elusennau lleol, dewisedig sef Cymdeithas Alzheimer a PHAB (Physical handicapped and able bodied). Bydd yr holl arian yn mynd tuag at y gwaith gwych y mae'r elusennau yma'n eu gwneud yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd ein cymunedau ac edrychwn ymlaen at gydweithio â'r elusennau yn ystod y flwyddyn.